

RAISING ASPIRATIONS, RAISING STANDARDS
CODI DYHEADAU, CODI SAFONAU



Success for every child
Llwyddiant i bob plentyn

EDUCATION : PLAY YOUR PART
ADDYSG : PAWB YN CYMRYD RHAN



Be the best that you can be
Byddwch y gorau y gallwch

SMT

Safer Merthyr Tydfil
Merthyr Tudful Mwy Diogel



Cynor Swydd a'r Sir
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Town Council

Codi Dyheadau a Chodi Safonau

Gwella deilliannau addysgol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2021-2026

Themâu

THEMA ✓

PARTNERIAETH A CHYDWEITHIO

Gall cydweithio'n cynorthwyo i wella addysg ac addysgu plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful.

Mae addysg plant a phobl ifanc **yn fusnes i bawb** a dylai pawb gynorthwyo plant a phobl ifanc i fod y gorau posib.

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ym Merthyr yw:

'Llwyddiant i bob plentyn'

Drwy gydweithio, gallwn gynorthwyo'n plant a'n pobl ifanc i gael profiad dysgu cadarnhaol, codi disgwyliadau a chyflawni mwy.

THEMA ✓

ADFERIAD WEDI'R PANDEMIG

Ein nod yw...

Symud ymlaen yn llwyddiannus o'r pandemig a chynorthwyo'n ysgolion a'n cymunedau.

Byddwn yn gweithio ag eraill er mwy sicrhau fod ein dysgwyr yn derbyn cefnogaeth dda a'u cynorthwyo i lwyddo.

Mae hyn yn bwysig gan fod...

Plant a phobl ifanc wedi colli allan yn ystod pandemig COVID19 ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hyn. Mae eu lles meddwl a'u llesiant yn bwysig i'w llwyddiant mewn bywyd. Mae llawer o ysgolion eisoes wedi bod ar gau ac efallai y bydd hyn yn digwydd eto yn sgil y pandemig.

Er gwaethaf hyn, mae’n bwysig ein bod yn darparu cwricwlwm cryf sy’n cefnogi llesiant, addysg a dysgu’n plant a’n pobl ifanc i fod y gorau posib.

NODAU

→ NOD

RHEOLI PERFFORMIAD A LLYWODRAETHIANT SYSTEM

Ein nod yw bod...

Pawb sydd wedi cyfranogi a chyfrannu at addysg ym Merthyr Tudful yn deall eu rôl ac yn atebol i’w gweithredoedd.

- Bod cyrff llywodraethu ysgolion ac eraill sy’n gyfrifol am addysg yn deall yn llwyr eu cyfrifoldebau i ddarparu cyfleoedd o ansawdd da i’n plant a’n pobl ifanc.
- Mae’n rhaid i’r Cyngor, sef prif ddarparwyr y gwasanaethau addysg ddarparu arweiniad a chefnogaeth gref. Mae ganddynt gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod y safonau dysgu y maent yn eu gosod yn dda ymhob un lleoliad addysg.
- Bydd data dysgu yn cael ei rannu er mwyn hysbysu a datblygu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol o ddysgwyr ym Merthyr Tudful.
- Bydd yr awdurdod lleol yn camu i’r adwy os bydd pryderon yn cael eu nodi am addysg ac addysgu mewn unrhyw leoliad.

Mae hyn yn bwysig gan y bydd...

System addysg gref lle y mae pob partner yn cydweithio er mwyn cwrdd ag un nod yn gwella safonau ar gyfer pob dysgwr gan sicrhau y gall plant a phobl ifanc fod y gorau ag y gallant fod.

→ NOD

DATBLYGU’R GWEITHLU ADDYSG

Ein nod yw bod...

Pob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful yn derbyn cefnogaeth mewn addysg gan staff hyddysg, brwdfrydig, ysbrydoledig ac angerddol.

Mae hyn yn bwysig...

Mae’n bwysig cael arweiniad o’r safon uchaf fel bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth a’r addysg orau posib. Mae’r staff gwyb yn annog plant a phobl ifanc i fod y ‘gorau posib’ fel y gallant lwyddo yn eu haddysg, llesiant a’u cyflogaeth yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth

Pam fod angen arweinwyr o safon arnom? Mae angen i arweinwyr o safon gael y staff gorau, ar bob lefel gan gynnwys arweinyddiaeth a hyfforddi staff i fod y gorau posib fel y gall ein pobl ifanc fod y gorau y gallant hwy fod hefyd.

➔ NOD

CYNORTHWYO IECHYD A LLESIANT DYSGWYR

Ein nod yw bod. . .

Pob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful yn derbyn cymorth i wella eu hiechyd emosiynol a chorfforol. Bydd hyn yn gymorth iddynt gymryd mantais lawn o’u haddysg.

Mae hyn yn bwysig. . .

Cyn COVID-19, roedd plant a phobl ifanc yn fwy llafar am bwysigrwydd llesiant. Mae hyn yn awr yn fwy pwysig nag erioed gan fod rhaid i ni gynorthwyo plant a phobl ifanc i weithio drwy’r heriau o dyfu fyny mewn byd sy’n cael ei adfer.

Er bod presenoldeb mewn ysgolion wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae lle i wella o hyd.

Mae Cabinet Ieuenctid Merthyr Tudful wedi gwneud gwaith gwych i gefnogi llesiant meddwl trwy becynnau cymorth ar gyfer disgyblion Cynradd ac Uwchradd ond mae’n rhaid gwneud mwy eto er mwyn sicrhau fod llesiant y disgyblion yn bwysig i llwyddiant academaidd. Mae gennym gyfrifoldeb i wrando ar bobl ifanc a gwella’n systemau er mwyn caniatáu eu bod yn gwella.

Bydd sicrhau bod gweithgaredd corfforol yn arferiad ar gyfer bywyd yn gwella iechyd ein plant a’n pobl ifanc yn awr ac yn y dyfodol, gwella eu hunanhyder a’u sgiliau cymdeithasol a lleihau gorbryder.

→ NOD

GWELLA CYRHAEDDIAD A DATBLYGIAD

Ein nod...

Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfle i bob dysgwr i ddyfod yn uchelgeisiol a chyfrannu mewn modd creadigol fel unigolyn iach.

- Bydd y cwricwlwm newydd, cyffrous hwn yn ymateb i ofynion pob dysgwr.
- Bydd yn sicrhau fod pob dysgwr yn gallu ysgrifennu, deall rhifau a gallu deall a defnyddio'r byd digidol.
- Bydd yn eu galluogi i sicrhau'r lefel uchaf posib mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfranogi mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd pontio o'r blynyddoedd cynnar i ysgolion cynradd ac o ysgolion cynradd i uwchradd yn llyfn er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc.

Mae hyn yn bwysig...

Mae pandemig COVID19 wedi cael effaith anferth ar y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu. Bydd ffordd newydd o ddysgu, codi safonau ac ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach yn gymorth i blant a phobl ifanc ac yn eu cefnogi i addysg bellach a dysgu.

→ NOD

DATBLYGU'R AMGYLCHEDD AR GYFER DYSGU

Ein nod yw bod...

Gan bob un plentyn a pherson ifanc amgylcheddau dysgu ac addysgu o'r safon uchaf.

Pob gweithgaredd yn cael eu darparu mewn amgylcheddau diogel ac ysbrydoledig y tu fewn a thu allan a bod y defnydd o dechnoleg yn gwella eu cyfleoedd dysgu.

Mae hyn yn bwysig....

Bydd unrhyw adeiladau neu welliannau newydd i ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiogelu ein hamgylchedd. Gall a dylai adeiladau addysg gael eu defnyddio'n fwy gan y gymuned.

‘Llwyddiant i bob plentyn’

Mae angen i ni fuddsoddi i wella'r dechnoleg gyfredol fel y gall mwy o bobl gael mynediad iddo.

‘byddwch y gorau y gallwch fod’